

Cynllun Iaith Gymraeg Tai Cymunedol Tai Calon Cyf

**Paratowyd y Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a'r
Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai
sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru,
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.**

Cafodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg o dan
adran 14(1) o'r Ddeddf ar y 04/05/2012.

1. Datganiad Agoriadol

1.1 Nod y Cynllun Mae Tai Calon wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd â'i gilydd. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.2 Amcanion

Rydym yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well trwy ddefnyddio eu dewis iaith. Hefyd, rydym yn cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn fater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn a gallai eu gwrthod rhag cael hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi o dan anfantais. Felly, byddwn yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth gyfathrebu â ni yn unol â'r egwyddor uchod.

2. Cyflwyniad

2.1 Cefndir a Gwerthoedd Corfforaethol

2.1.1 Tai Calon yw cymdeithas tai cymunedol cydfuddiannol sydd â statws elusennol a thenantiaid sydd wrth ei chraidd. Rydym yn gymdeithas newydd, wedi'i lleoli ym Mlaenau Gwent, wedi'i sefydlu i berchen ar, rheoli a gwella tai yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn arfer bod yn berchen arnynt. Rydym yn:

- Dirfeddiannwr sylweddol ym Mlaenau Gwent.
- Ddarparwr 80% o dai fforddiadwy ym Mlaenau Gwent ac yn darparu gwasanaethau i filoedd o bobl hŷn ym Mlaenau Gwent.
- Gyflogwr mawr o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Wrth wraidd ein cynllun corfforaethol pum mlynedd yw ein hymrwymiad llwyr i wireddu'r addewidion a wnaethpwyd i denantiaid a lesddalwyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar ein rhan adeg y trosglwyddo. Rydym yn cydnabod bod gennym gyfle unigryw i wir wella tai a chymunedau a'i bod yn gyfle i newid bywydau a chyfloed bywyd er gwell. Ar yr un adeg, mae'n rhaid i ni wneud y gorau o'r buddion adnewyddu posib y gall y buddsoddiad mewn gwella tai i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru eu cynnig.

O fewn cyfnod pum mlynedd ein Cynllun Corfforaethol rydym am gael ein cydnabod fel model ar gyfer arfer da ac arloesi. Rydym am i bobl eisiau byw yn ein tai, y byddant yn ddiogel ac wedi'u cynnal yn dda, a, phan eu bod yn byw mewn cartref Tai Calon, i fod yn falch o fyw yno a bod yn rhan o'r gymuned leol.

Mae Bwrdd Tai Calon wedi cytuno ar ei genhadaeth, ei weledigaeth a'i werthoedd.

2.1.2 Ein **cenhadaeth** yw:

- Gwireddu ein haddewidion, gwella tai a bywydau.

2.1.3 Ein **gweledigaeth** yw y byddwn yn darparu:

- Tai ardderchog a gwasanaethau y bydd ein cymunedau yn falch ohonynt.

2.1.4 Ein **gwerthoedd** neu “sut y mae pethau'n cael eu gwneud gan Tai Calon” yw y byddwn yn:

- Canolbwyntio ar y tenant
- Gwrando a dysgu
- Ardderchog
- Dangos parch
- Agored ac onest

Mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol wedi datblygu ystod o weithredoedd y byddant yn dechrau rhoi ein gweledigaeth ar waith ac yn mesur ein llwyddiant o ran eu gwireddu trwy **wyth thema allweddol** sef:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Rheoli asedau a chyflenwi SATC
- Cyflenwi adnoddau
- Cyflenwi partneriaethau
- Cyflenwi rheoli perfformiad
- Cyflenwi buddsoddi mewn tenantiaid
- Cyflenwi cyfathrebu a marchnata
- Llwyddiannau cynnar

Trwy gydol yr holl themâu hyn ceir ymrwymiad i wireddu addewidion a wnaethpwyd i denantiaid a lesddalwyr. Ceir manylion pellach o ran sut y bydd y themâu a'r gweithredoedd hyn yn cael eu darparu wedi'u cynnwys o fewn ein cynllun busnes a'r cynlluniau gweithredol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.

2.2 Strwythur ac Ardal Weithredu

Ein tenantiaid a'n lesddalwyr ym Mlaenau Gwent sydd yn berchen ar Tai Calon ac y mae wedi'i llywodraethu gan Fwrdd o 15 o aelodau yn cynnwys 5 tenant, 5 cynghorydd a 5 aelod annibynnol. Pwyllgor Craffu Aelodaeth, yn cynnwys 15 o aelodau, sydd yn dal Bwrdd Tai Calon i gyfrif ar ran Aelodau Tai Calon gan fonitro gwaith Tai Calon yn agos. Rydym yn cyflogi dros 260 o aelodau staff o'n pencadlys ym Mlaenau.

2.3 Defnyddwyr Gwasanaethau

Yn bennaf, ein defnyddwyr gwasanaethau yw tenantiaid, lesddeiliaid a thrigolion ein cymunedau neu'r rhai sydd yn chwilio am gartref o fewn ein cymunedau.

2.4 Yr Iaith Gymraeg

2.4.1 Cydnabu cyfrifiad 2001 fod 9.5% o'r boblogaeth 3 oed a hŷn o fewn ardal Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gallu siarad Cymraeg.

2.4.2 Ym mis Gorffennaf 2010, trosglwyddwyd dros 6,200 o dai i Tai Calon gan y Cyngor. Yn ystod 2009 cynhaliwyd ymarfer ymgynghorol sylweddol â thenantiaid a oedd yn cynnwys ymweld â chartrefi dros 90% o'r thenantiaid hyn er mwyn esbonio'r broses trosglwyddo stoc a sicrhau bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol er mwyn eu galluogi i wneud dewis gwybodus yn ystod balot tenantiaid. Gofynnwyd i bawb a dderbyniodd ymweliad a oeddent am dderbyn unrhyw wybodaeth yn y Gymraeg. Nid oedd unrhyw denantiaid am dderbyn y cynnig hwn.

2.4.3 Mae Tai Calon wedi ymrwymo i gynnig gwasanaethau o safon yn unol ag anghenion ei thenantiaid a'i lesddalwyr a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu a'r nod yw dileu gwahaniaethu ym mhob maes ei gwaith. Er mwyn ennill dealltwriaeth well o anghenion ei thenantiaid a'i chymunedau, ym mis Rhagfyr 2010, gofynnodd i'w holl denantiaid gwblhau a dychwelyd holiadur cyfrifiad. Hyd yn hyn y mae 4,131 o denantiaid wedi dychwelyd eu holiaduron sydd yn cynrychioli 66.6% o gartrefi Tai Calon. O'r 4,131 o ymatebion atebodd 58 o bobl "ydw" i'r cwestiwn "Ydych chi'n siarad Cymraeg?" ac atebodd 7 "Byddai" i'r cwestiwn "Fyddai'n well gennych chi pe bawn yn cyfathrebu â chi yn y Gymraeg?"

2.4.4 O ganlyniad i hyn, lluniwyd y polisi hwn ar y sail bod cyfran y defnyddwyr gwasanaethau a chyflogeion sydd yn siarad Cymraeg yn fach iawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall unigolion ofyn i ni ddefnyddio'r Gymraeg a bod ganddynt hawl i wneud hynny os y Gymraeg yw eu dewis iaith. O ran defnyddwyr posib y dyfodol rydym am sicrhau bod ganddynt fynediad cydradd i'n gwasanaethau a'n swyddi beth bynnag eu dewis iaith. Felly, byddwn yn cynhyrchu dogfennaeth fynediad allweddol ar wahân yn y ddwy iaith gan roi dewis i bobl o ran pa fersiwn sydd ei hangen arnynt. Bydd pob fersiwn yn cael ei chyhoeddi ar y cyd, ar gael yn gydradd â'i gilydd a'r ddwy fersiwn yn cynnwys neges yn nodi "This (leaflet) is also available in (Welsh)" ac "Mae'r daflen (hon) ar gael hefyd yn (Saesneg)". Hefyd, byddwn yn hyrwyddo a chefnogi hybu yr iaith Gymraeg trwy gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer ein haelodau staff a'n haelodau Bwrdd.

2.4.5 Bydd y trefniadau yn cael eu hadolygu yn barhaus a, phe bai amgylchiadau'n newid, byddwn yn sicrhau bod y Cynllun Iaith yn cael ei adolygu er mwyn adlewyrchu newidiadau y proffil iaith cymunedol a bod adnoddau ar gael i adlewyrchu amgylchiadau o'r math.

2.4.6 Y pwynt cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith yw'r Prif Weithredwr a'r manylion cyswllt yw Tai Cymunedol Tai Calon, Solis One, Ystâd Ddiwydiannol y Rising Sun, Blaenau, Gwent, NP13 3JW, Ffôn 0300 303 1717.

3. Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau

3.1 Polisiâu a Mentrau

3.1.1 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd neu wrth ddiwygio polisiâu, byddwn yn asesu eu heffaith ieithyddol a sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun hwn a byddwn yn sicrhau bod mesurau'r Cynllun yn cael eu gweithredu pan fo polisiâu a mentrau newydd yn cael eu rhoi ar waith.

3.1.2 Byddwn yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg o flaen llaw parthed unrhyw gynig y byddai'n cael effaith uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni fydd y Cynllun hwn yn cael ei ddiwygio heb ganiatâd blaenorol Comisiynydd y Gymraeg.

3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod pwy bynnag sydd yn rhan o'r broses lunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun a'n cyfrifoldebau o dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.2 Cyflenwi Gwasanaethau

3.2.1 Ein nod yw cynnig yr un safon uchel o wasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.2.2 Bydd y Gymdeithas yn cyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun trwy weithredu'r trefniadau canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth am y Cynllun Iaith ymhlith ein staff;
- Ymdrechu i sicrhau bod gennym aelodau staff digonol sydd yn gallu ac yn hyderus i gynig cymorth a gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
- Ceisio trefnu ein tîm gwasanaethu fel bod modd i'r aelodau staff sydd yn siarad Cymraeg ymdrin â'r defnyddwyr gwasanaethau sydd yn siarad Cymraeg;
- Mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sydd yn hwyluso cyflenwi gwasanaethau yn newis iaith y person sydd yn derbyn y gwasanaeth;
- Ychwanegu at sgiliau ieithyddol ein staff â gwasanaethau cyfieithu proffesiynol y byddant ar gael yn rhwydd er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen o ran cyflenwi gwasanaethau.

3.2.3 Bydd pob dogfen fynediad allweddol ar gael yn y Gymraeg yn syth. Bydd unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt ar gael yn y Gymraeg yn syth yn cynnwys y datganiad canlynol; "This (leaflet) is also available in (Welsh)" ac "Mae'r daflen (hon) ar gael hefyd yn (Saesneg)".

Hefyd, bydd y datganiad hwn yn cael ei arddangos ym mhob un o'n derbynfydd gan gynnwys ein cynlluniau gwarchodol.

3.3 Gwasanaethau a Gynigiwyd ar gyfer y Cyhoedd gan Fudiadau Eraill

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau sydd yn cael eu gwneud â thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

3.4 Safonau Ansawdd

Bydd gwasanaethau sydd yn cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd â'i gilydd o ran safon a, chyn belled ag sydd yn bosib, rydym yn anelu at eu cynnig o fewn yr un amserlenni.

4. Ymdrin ag Aelodau'r Cyhoedd Cymraeg Eu Hiaith

4.1 Gohebiaeth

4.1.1 Mae Tai Calon yn croesawu gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.1.2 Bydd pob darn o ohebiaeth yn cael ei ymdrin ag ef yn brydlon ac ni ddylai gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg arwain at unrhyw oedi sylweddol.

4.1.3 Pan fo rhywun yn ysgrifennu atom yn y Gymraeg byddwn yn cynnig ymateb yn y Gymraeg lle y bod angen ymateb.

4.1.4 Bydd pob gohebiaeth yn dilyn galwad ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb yn y Gymraeg neu gyfarfod lle y cadarnhawyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith y person, drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.1.5 Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl sydd am ymdrin â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.1.6 Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebiaeth a threfnu cyfieithu.

4.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

4.2.1 Mae Tai Calon yn croesawu ymholiadau personol yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

4.2.2 Bydd staff ein switsfwrdd yn ateb galwadau ffôn â chyfarchiad dwyieithog.

4.2.3 Er mwyn llwyddo i gyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd â'i gilydd byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ymdrin â ni yn y Gymraeg dros y ffôn:

- Cynnig cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt.
- Cynnig canllawiau i staff ar sut i ymdrin â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

4.3.1 Pan fo Tai Calon yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, yn cynnwys cynadleddau a digwyddiadau tebyg, bydd croeso i'r rhai sydd yn bresennol gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

4.3.2 Pan fo siaradwyr Cymraeg ymhlith y rhai sydd wedi'u gwahodd i fynychu'r digwyddiad neu ein bod yn ymwybodol bod siaradwyr Cymraeg yn bwriadu bod yn bresennol byddwn yn trefnu cyfleusterau cyfieithu.

4.3.3 Byddwn yn asesu'r angen i aelodau staff sydd yn siarad Cymraeg fod yn bresennol yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn croesawu aelodau'r cyhoedd ac ymdrin â'u hymholiadau. Bydd ein staff yn sicrhau bod eu gallu ieithyddol yn amlwg yn ystod cyfarfodydd, er enghraifft, trwy groesawu pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynau "Iaith Gwaith".

4.4 Cyfarfodydd Eraill

4.4.1 Rydym yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg ond, o ganlyniad i brinder siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg. O dan amgylchiadau fel hyn byddwn yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais a chynnig opsiynau eraill fel trefnu cyfieithu neu gynnal y cyfarfod yn y Saesneg.

4.4.2 Pan ein bod yn trefnu apwyntiad wyneb yn wyneb ag aelod y cyhoedd sydd wedi ein hysbysu y byddai'n well ganddo gyfathrebu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bynnag y bo modd, byddwn yn sicrhau bod aelod staff cymwys sydd yn siarad Cymraeg yn mynychu'r cyfarfod.

4.5 Cyfathrebu â'r Cyhoedd mewn Ffyrdd Eraill

Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha bynnag ffordd yr ydym yn ymdrin â'r cyhoedd.

5. Wyneb Cyhoeddus Tai Calon

5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yn hyrwyddo Tai Calon a'n llety a'n gwasanaethau gan ddefnyddio logo dwyieithog.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Pan ein bod yn adnewyddu neu'n gosod arwyddion newydd byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn gwbl ddwyieithog. Bydd arwyddion sydd yn cael eu gosod am y tro cyntaf yn gwbl ddwyieithog.

5.2.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau efwyddor cydraddoldeb ieithyddol.

5.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau yn cynnwys Ffurflenni a Deunyddiau Esboniadol

5.3.1 Byddwn yn cynhyrchu dogfennau mynediad allweddol sydd eu hangen er mwyn cael mynediad i'n gwasanaethau am y tro cyntaf yn y ddwy iaith. Ar y cychwyn bydd dogfennau mynediad allweddol Tai Calon yn cynnwys:

- Ffurflenni cais ar gyfer tai
- Ffurflenni cais ar gyfer cyflogaeth
- Ffurflenni cais ar gyfer dod yn aelod o Tai Calon
- Crynodeb o'n Cynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd yn esbonio hawl pobl i gyfathrebu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg os hoffent
- Taflen yn esbonio sut i gysylltu â Tai Calon

- Taflen yn esbonio sut i ddod yn denant
- Taflen yn esbonio sut i geisio am swyddi Tai Calon
- Taflen yn esbonio sut i ddod yn aelod

Bydd y rhestr hon yn cael ei hadolygu wrth i'r Cynllun symud yn ei flaen.

5.3.2 Byddwn yn cynhyrchu'r dogfennau hyn ar wahân yn y ddwy iaith gan roi dewis i bobl o ran pa fersiwn sydd ei hangen arnynt. Bydd pob fersiwn yn cael ei chyhoeddi ar y cyd, ar gael yn gydradd â'i gilydd ac yn cynnwys neges yn nodi "This (leaflet) is also available in (Welsh)" ac "Mae'r daflen (hon) ar gael hefyd yn (Saesneg)".

5.4 www.taicalon.org.

Mae ein gwefan yn bennaf yn yr iaith Saesneg ond byddwn yn sicrhau bod:

- Ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i gynnwys ar ein gwefan.
- Y wybodaeth fynediad allweddol a nodwyd uchod hefyd ar gael yn y Gymraeg ar ein gwefan.

5.5 Datganiadau i'r Wasg a Chyflwyniadau

Fel arfer, bydd y rhain yn cael eu dosbarthu yn y Saesneg. Efallai y bydd hysbysiadau neu ddigwyddiadau lle yr ystyrir bod cyflwyniad dwyieithog yn briodol; yn yr achosion hyn byddwn yn darparu hyn.

6. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun

6.1 Staffio a Recriwtio

Byddwn yn ceisio sicrhau, i raddau sydd yn ymarferol resymol, y bydd gweithleoedd sydd yn ymwneud â'r cyhoedd â mynediad i staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg priodol er mwyn sicrhau bod modd i'r gweithleoedd hynny gynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod gennym y sgiliau iaith Gymraeg priodol yn y lleoedd cywir byddwn yn dilyn y broses ganlynol:

- Byddwn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi lle y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.
- Byddwn yn cynnal awdit bob blwyddyn er mwyn cadarnhau nifer y staff sydd yn berchen ar sgiliau iaith Gymraeg yn ogystal â'r lefel a'u lleoliad.
- Bydd canlyniadau'r ddau ymarfer hwn yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig mynediad i staff digonol sydd â sgiliau iaith Gymraeg.
- Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau trwy hyfforddiant staff.
- Hefyd, byddwn yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff parthed gofynion y Cynllun hwn. Ein harfer arferol fydd cynnwys hyfforddiant o'r math fel rhan o gyfarfod anwytho staff newydd.

6.2 Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Byddwn yn cefnogi staff i ddysgu Cymraeg. Bydd y math o hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig i staff yn addas ar gyfer anghenion personol a phroffesiynol pob unigolyn a gofynion busnes y mudiad ond, hefyd, gallai gynnwys:

- Cyflwyniad cyffredinol ar yr iaith ar gyfer dechreuwyr pur.

- Sesiynau magu hyder ar gyfer staff sydd â pheth gwybodaeth am yr iaith.
- Cyrsiau Cymraeg Uwch ar gyfer staff rheng flaen.
- Ymwybyddiaeth iaith.

6.3 Trefniadau Gweinyddol

Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Tai Calon. Y Prif Weithredwr sydd yn bennaf gyfrifol am weithredu'r Cynllun iaith ac y mae gan ein holl aelodau staff gyfrifoldeb i wybod sut i roi'r Cynllun ar waith yn effeithiol.

Y cyfarwyddwr perthnasol fydd yn gyfrifol am weithredu cymalau'r Cynllun iaith.

6.4 Adolygu Gweithredu'r Cynllun

6.4.1 Y Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Cymunedol sydd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

6.4.2 Byddwn yn defnyddio ein prosesau sylwadau, canmol a chwyno arferol i gofnodi ac ymdrin ag adborth am y Cynllun hwn gan sicrhau y bydd modd monitro cwynion penodol yn ymwneud â'r Cynllun.

6.4.3 Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i Fwrdd Tai Calon bob blwyddyn ac anfon copi o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad ar fformat y cytunwyd arno â'r Comisiynydd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion a sylwadau gwella sydd wedi'u derbyn gan y cyhoedd o ran y Cynllun.

6.5 Cyhoeddi Gwybodaeth

Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein Hadroddiad Blynyddol, a fydd yn cael ei anfon at bob tenant ac ystod o randdeiliaid, yn nodi lle y mae modd i aelodau'r cyhoedd dderbyn copi o'n hadroddiad monitro blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.

6.6 Cyhoeddusrwydd

6.6.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sydd yn cyfathrebu â ni yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a'i gynnwys a sut y mae modd iddynt gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.

6.6.2 Bydd ein dulliau o ran cyhoeddi'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau corfforaethol arferol a bydd yn cynnwys sicrhau bod y Cynllun wedi'i gyhoeddi mewn lleoliad amlwg ar ein gwefan.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG – CYNLLUN GWEITHREDU

Targed / Tasg Cynllun Gweithredu	Dangosydd	Swyddog sydd yn Gyfrifol	Dyddiad y Targed
Cadw cyfeiriadur o'r holl gwsmeriaid sydd yn gofyn am ohebiaeth yn y Gymraeg	Data cyfrifiad tenantiaid, System TG Northgate	Rheolwr Perfformiad a Datblygu Busnes	Parhaus
Sicrhau bod yr adran Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cyfarch pob galwr yn ddwyieithog	Awdit, siopa dirgel	Pennaeth Tai	31 Medi 2012
Codi ymwybyddiaeth staff am y Cynllun Iaith Gymraeg	Safle'r rhynggrwyd a Fforwm staff - SATNAV	Prif Weithredwr, Pennaeth AD	31 Medi 2012
Diwygio'r logo corfforaethol i fod yn un dwyieithog	Gwefan, brandio, arwyddion, papurach	Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata	30 Tachwedd 2012
Cynnal awdit o bob swydd parthed gofynion sgiliau iaith Gymraeg	Disgrifiadau swydd a manylebau person	Pennaeth AD	28 Awst 2012
Diwygio proffiliau rôl er mwyn cydnabod lle y mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol	Rhynggrwyd, proffiliau rôl	Pennaeth AD	28 Awst 2012
Ychwanegu cwestiwn i'r awdit AD blynyddol parthed lefel sgiliau iaith Gymraeg	Dogfen Awdit AD, Rhynggrwyd	Pennaeth AD	28 Awst 2012
Sefydlu hyfforddiant Ymwybyddiaeth am y Cynllun, anwytho a'r iaith Gymraeg	Cynllun Darparu Hyfforddiant	Uwch swyddog: Hyfforddiant a Datblygiad a Phennaeth AD	28 Awst 2012
Cyhoeddi enwau staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar y rhynggrwyd yn ogystal â'r lefel a'r gallu	Darparu cyfeiriadur mewnol ar y rhynggrwyd	Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata	28 Awst 2012
Sefydlu proses cyfieithu effeithiol ac effeithlon er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi pan fo angen ymateb yn y Gymraeg i ohebiaeth	Dim gwahaniaeth amser ymateb ar gyfer gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg	Rheolwr Perfformiad a Datblygu Busnes	31 Gorffennaf 2012
Cyhoeddi canllawiau mewnol a sicrhau bod staff rheng flaen yn gwybod sut i ymateb i alwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg	Cyhoeddi canllawiau	Pennaeth Tai	28 Awst 2012
Ychwanegu datganiad i bob dogfen a thaflen newydd yn nodi yn y Gymraeg a'r Saesneg bod y wybodaeth ar gael yn y ddwy iaith	Diwygio llythyron, taflenni a gwefan	Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata	Parhaus
Arddangos arwydd Cynllun Iaith Gymraeg ym mhob derbynfaf	Arwyddion	Pennaeth Tai	28 Awst 2012
Cyhoeddi taflenni mynediad tro cyntaf a ffurflenni cais yn y	Taflenni gwasanaethau,	Rheolwr Cyfathrebu a	1 Tachwedd 2012

Gymraeg. Sicrhau eu bod ar gael ar y wefan	ffurflenni cais, gwefan	Marchnata	
Llunio adroddiad blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Adroddiad Blynyddol a gwefan	Prif Weithredwr a Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata	Mehefin 2012
Cynnwys datganiad yn ein Hadroddiad Blynyddol cyhoeddedig yn nodi lle y mae modd i aelodau'r cyhoedd dderbyn copi o'n hadroddiad monitro blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg	Adroddiad Blynyddol a Chylchlythyr	Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata	Medi 2013